

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD 29 Mehefin 2026
19.00 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

1. Presennol

Glyn Griffiths, Cenwyn ap Thomas, June Jones, Dafydd Thomas

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Nia Povey

2. Ymddiheuriadau

Beti Williams, Siân Cwper

3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Dim

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 27 Ebrill 2026.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 2 Mawrth 2026

Cynnig: Nia Povey

Eilio: Glyn Griffiths

5. Cyfethol Aelod

Cyfetholwyd Dafydd Thomas yn unfrydol fel aelod o'r cyngor cymuned, gan felly lenwi un o'r seti gwag.

6. Materion yn codi o'r Cofnodion

6.1 Ynni Cymunedol

Mae Menter y Ring yn fodlon gwneud cais am grant o £500 gan Dŵr Cymru er mwyn talu am asesiad dichonoldeb i weld a fyddai hi'n bosibl sefydlu Clwb Egni Lleol yn ardal Llanfrothen.

Mae Dafydd Watts wedi cysylltu efo Cyngor Gwynedd er mwyn gweld a fyddai'n bosibl cael grant gan y Gronfa Twf Lleol. Disgwylir ymateb.

6.2 Y Ganolfan

Mae Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau bydd Ysgol y Garreg yn cau ar 31 Awst 2026.

Gan y bydd cau'r ysgol yn effeithio ar Y Ganolfan, cytunwyd i drafod dyfodol y Ganolfan ymhellach yng nghyfarfod mis Medi.

Cytunwyd i roi piano'r Ganolfan i Fenter Y Ring fel rhodd, cyn belled â'u bod nhw yn ei symud ac yn cymryd cyfrifoldeb drosti.

6.3 Arwydd Fflachio Cyflymder

Bu cais grant Gwynedd Ni yn llwyddiannus, ac mae £5,500 wedi ei ddyrannu ar gyfer prynu arwydd fflachio cyflymder.

Bydd arwydd felly'n cael ei archebu gan Westcotec.

6.4 Mynwent Tan Lan

Dim byd newydd i'w adrodd.

6.5 Cwrs Diffribliwyr

Cynhaliwyd cwrs gan drigolyn lleol sydd yn wirfoddolwr nos Lun 22 Mehefin yn Siop a Chaffi Llanfrothen.

Cytunwyd i gyfrannu swm o £100 er budd yr Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol.

Roedd yna awydd i gynnal cwrs cymorth cyntaf yn y dyfodol.

6.6 Afon Wern

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau fod Afon Wern wedi ei gosod ar y rhaglen torri chwyn, ac wrthi'n mynd drwy'r broses ymgynghori fewnol o fen Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn amodol ar beidio â chael unrhyw wrthwynebiadau, derbyn yr holl drwyddedau angenrheidiol, a chadarnhad nad oes unrhyw gyfyngiadau ar fynediad i'r ffos gyda pheiriannau, bydd modd bwrw ymlaen â'r gwaith.

Bydd yn rhaid hefyd sicrhau nad oes yna Rywogaethau Estron Goresgynnol, megis clymog Siapan neu ffromlys Himalaya yn bresennol.

Gofynnwyd i'r Clerc ofyn am ddiweddariad.

6.7 Torri Coed A4085 Garreg i Benrhyndeudraeth

Mae'r coed ar hyd yr A4085 rhwng Garreg a Phenrhyndeudraeth angen eu torri.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd er mwyn gofyn i'r gwaith gael ei wneud.

7. Materion Ariannol

7.1 Cyflog Clerc Mai 2026 £559.04

7.2 Cyflog Clerc Mehefin 2026 £559.04

- 7.3** EDF Energy 20 Mai 2026 - £22.20
EDF Energy 16 Mehefin 2026 - £27.48
- 7.4** Dunn & Ellis, Anfoneb 25 Ebrill 2026 - £73.
- 7.5** Ad-dalu'r Clerc Yswiriant Clear Councils 2026/27 £1,501.50
- 7.6** Ad-dalu'r Clerc Toner Argraffydd Cartridge Save - £45.91
- 7.7** Ad-dalu'r Clerc Microsoft 365 - £84.99
- 7.8** Ad-dalu'r Clerc Papur Argraffydd - £6.00
- 7.9** Anfoneb J Morrison 5 Mai 2026 glanhau tu allan i'r Ganolfan - £40.00
- 7.10** Snowdonia Fire Protection Anfoneb 66172 Arolwg Tân Y Ganolfan - £99.60
- 7.11** Defnydd Menter Y Ring o'r Ganolfan Mawrth 2026 - £45.00
Defnydd Menter Y Ring o'r Ganolfan Ebrill 2026 - £120.00
Defnydd Menter Y Ring or Ganolfan Mai 2026 - £16.00
- 7.12** Derbyn Taliad Cyntaf Praesept 2026/27 29 Ebrill 2026 - £6,650.00
- 7.13** Derbyn taliad SumUp i'r banc 1 Mai 2026 - £1.95
- 7.14** Derbyn taliad SumUp i'r banc 5 Mai 2026 - £17.53
- 7.15** Derbyn taliad SumUp i'r banc 7 Mai 2026 - £9.75
- 7.16** Derbyn taliad SumUp i'r banc 8 Mai 2026 - £4.87
- 7.17** Derbyn taliad SumUp i'r banc 11 Mai 2026 - £45.78
- 7.18** Derbyn taliad SumUp i'r banc 12 Mai 2026 - £4.87
- 7.19** Derbyn taliad SumUp i'r banc 13 Mai 2026 - £1.95
- 7.20** Derbyn taliad SumUp i'r banc 14 Mai 2026 - £4.87
- 7.21** Derbyn taliad SumUp i'r banc 18 Mai 2026 - £9.74
- 7.22** Derbyn taliad SumUp i'r banc 19 Mai 2026 - £4.87
- 7.23** Derbyn taliad SumUp i'r banc 22 Mai 2026 - £19.50
- 7.24** Derbyn taliad SumUp i'r banc 26 Mai 2026 - £34.10
- 7.25** Derbyn taliad SumUp i'r banc 27 Mai 2026 - £4.87
- 7.26** Derbyn taliad SumUp i'r banc 29 Mai 2026 - £8.77
- 7.27** Derbyn taliad SumUp i'r banc 1 Mehefin 2026 - £15.58

- 7.28 Derbyn taliad SumUp i'r banc 5 Mehefin 2026 - £3.90
- 7.29 Derbyn taliad SumUp i'r banc 8 Mehefin 2026 - £9.75
- 7.30 Derbyn taliad SumUp i'r banc 9 Mehefin 2026 - £6.82
- 7.31 Derbyn taliad SumUp i'r banc 11 Mehefin 2026 - £2.44
- 7.32 Derbyn taliad SumUp i'r banc 18 Mehefin 2026 - £9.74
- 7.33 Derbyn taliad SumUp i'r banc 22 Mehefin 2026 - £14.62
- 7.34 Balans yn y prif gyfrif 23 Mehefin 2026 £6,096.15
- 7.35 Balans yn y cyfrif cadw 23 Mehefin 2026 £39,425.73

8. Gohebiaeth

- Llythyr o gefnogaeth Plas Tanybwllch

Cytunwyd i ddanfôn llythyr at Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cefnogi eu cais am arian o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer datblygu'r Plas.

- Cronfa Cyfle Urdd i Bawb

Cytunwyd i gyfrannu £100

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Cenwyn ap Tomos

- Ymgynghoriad ar ardoll ymwelwyr Gwynedd

Cytunwyd i ymateb i'r ymgynghoriad drwy ddweud fod y cyngor cymuned yn gyffredinol gefnogol i godi ardoll, cyn belled â'i bod hi'n glir ar beth mae'r arian a godir yn cael ei wario

- Cais am Adborth: Proffiliau Aneddiadau Drafft – Parc Cenedlaethol Eryri

Cytunodd y Cyngorydd Nia Povey i wirio'r wybodaeth.

- Ymchwil Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Derbyniwyd er gwybodaeth

9. Cynllunio

Dim

10. Materion Eraill

10.1 Ffurflen Flynyddol 2025/26

Mae Cyngor Gwynedd wedi cwblhau eu harchwiliad mewnol. Nodwyd eu sylwadau ac fe gymeradwywyd Ffurflen Flynyddol 2025/26 ar gyfer ei danfon at yr archwiliwr allanol.

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Cenwyn ap Tomos

10.2 Twll ar y B4410

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd er mwyn trwsio twll drwg ar y B4410

10.3 Amrywiol Dyllau Ffordd o Benrhyndeudraeth i Garreg

Mae'r tyllau a gafodd eu clytio gam Gyngor Gwynedd yn dechrau dirywio eto. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd er mwyn eu trwsio.

10.4 Ffordd Tu Cefn i Garreg Frech

Mae yna gaead twll yn rhydd ynghanol y ffordd dros y ffordd i rif 2 Garreg Frech. Mae angen tynnu sylw Cyngor Gwynedd neu Adra iddo.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 7 Medi 2026 am 7 yr hwyr
--